# Ymagwedd Ofcom at weithredu'r Ddeddf Diogelwch Ar-lein

**Dogfen**

Cyhoeddwyd ar 26 Hydref 2023

# Cynnwys

## Adran

Ein hymagwedd....................................................................................................3
Map wedi'i ddiweddaru..........................................................................................12

# Ein hymagwedd

## Ynghylch y Ddeddf Diogelwch Ar-lein

### A’r Ddeddf Diogelwch Ar-lein wedi cael Cydsyniad Brenhinol, mae pwerau Ofcom fel rheoleiddiwr diogelwch ar-lein wedi dechrau

Mae llawer o’r gwasanaethau ar-lein mwyaf poblogaidd sy’n cael eu defnyddio fwyaf heddiw yn wasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr. Mae’r rhain yn cynnwys cyfryngau cymdeithasol, gwasanaethau rhannu lluniau a fideos, llwyfannau sgwrsio a negeseua gwib, gemau ar-lein ac ar ddyfeisiau symudol, a galwadau fideo.

Mae’r gwasanaethau hyn wedi creu manteision mawr: cyfathrebu agored, y gallu i rannu fideos a lluniau o unrhyw le i unrhyw un, mathau newydd o ryngweithio cymunedol a rhyngweithio ar unwaith.

Ond gyda’r manteision hyn, daw risgiau newydd o niwed ac anghyfreithlondeb, gan gynnwys defnyddio gwasanaethau ar-lein i alluogi cam-drin a chamfanteisio’n rhywiol ar blant; lledaenu cynnwys terfysgol ac ysgogi casineb; cyflawni twyll; neu ganiatáu i blant chwilio neu ddod ar draws cynnwys a allai fod yn niweidiol iddynt.

Mae Deddf Diogelwch Ar-lein y DU 2023 (‘y Ddeddf’) yn gwneud cwmnïau sy’n gweithredu amrywiaeth eang o wasanaethau ar-lein (gan gynnwys gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr, gwasanaethau chwilio a gwasanaethau pornograffi[1]) yn gyfrifol yn gyfreithiol am gadw pobl, yn enwedig plant, yn ddiogel ar-lein. Mae’r ddogfen hon yn crynhoi’r camau allweddol y mae’n rhaid i gwmnïau eu cymryd o dan y Ddeddf ac yn egluro beth bydd Ofcom yn ei wneud i sicrhau cydymffurfiaeth. Mae hefyd yn nodi’r canlyniadau rydym yn disgwyl i’r rheolau newydd eu cyflawni.

### Rydym yn symud yn gyflym i roi’r rheolau newydd ar waith

Rydym yn cyhoeddi ein hymgynghoriad cyntaf ar niwed anghyfreithlon ar 9 Tachwedd 2023. Bydd hyn yn cynnwys cynigion ar gyfer sut gall gwasanaethau gydymffurfio â’r dyletswyddau diogelwch o ran cynnwys anghyfreithlon a’r **Codau Ymarfer** drafft.

Dyma’r cyntaf o dri cham, a sefydlwyd gan y Ddeddf:

- Dyletswyddau yng nghyswllt Niwed Anghyfreithlon
- Dyletswyddau o ran Amddiffyn Plant, gan gynnwys rhag mynediad at bornograffi
- Dyletswyddau ar wasanaethau ‘wedi’u Categoreiddio’ – hynny yw, y rheini sy’n bodloni meini prawf penodol sy’n ymwneud â nifer y defnyddwyr neu’r risg o niwed – gan gynnwys dyletswyddau i gyhoeddi adroddiadau tryloywder a galluogi defnyddwyr i reoli’r cynnwys maen nhw’n ei weld[2]

[1] Gweler yr Ymgynghoriad ar Niwed Anghyfreithlon (disgwylir i’w gyhoeddi ym mis Tachwedd 2023) am esboniad manwl o ba wasanaethau sy’n dod o dan y ddeddfwriaeth.

[2] Bydd y meini prawf ar gyfer categoreiddio yn cael eu gosod gan Lywodraeth y DU mewn is-ddeddfwriaeth. Ar ôl i hyn ddigwydd, bydd Ofcom yn penderfynu pa wasanaethau sy’n bodloni’r trothwyon hyn, ac yn eu hychwanegu at gofrestr gyhoeddus. Os nad yw gwasanaeth wedi’i gynnwys ar y gofrestr hon, ni fydd yn rhaid iddynt gydymffurfio â’r rhwymedigaethau ychwanegol hyn. Rydym yn rhagweld *na fydd* y rhan fwyaf o’r 100,000 o wasanaethau o fewn cwmpas yn cael eu categoreiddio.

Mae'r Map, sydd wedi'i ddiweddaru ac i'w weld yn adran olaf y ddogfen hon, yn egluro pryd y byddwn yn cyhoeddi rhagor o wybodaeth a chynigion ym mhob un o'r camau hyn.

## Mae angen i gwmnïau asesu a rheoli risgiau i ddiogelwch ar-lein pobl

Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswyddau ar wasanaethau ar-lein i asesu a rheoli risgiau diogelwch sy'n deillio o gynnwys ac ymddygiad ar eu gwefannau a'u hapiau. Nid yw'n disgwyl i gynnwys niweidiol ac anghyfreithlon gael ei ddileu ar-lein, ond mae'n disgwyl i wasanaethau fod â mesurau addas i gadw oedolion a phlant yn y DU yn ddiogel. Un o'r agweddau allweddol ar y rheolau hyn yw eu bod yn targedu newidiadau yn systemau a phrosesau gwasanaethau. Ni fydd presenoldeb cynnwys niweidiol neu anghyfreithlon, ynddo'i hun, yn profi a yw'r gwasanaeth wedi cydymffurfio â'i ddyletswyddau o dan y Ddeddf.

Ar ôl i'r rheolau newydd ddod i rym, bydd angen i bob gwasanaeth chwilio a gwasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr sydd o fewn y cwmpas, boed hwy'n wasanaethau mawr neu fach, gymryd camau i gydymffurfio â'r dyletswyddau newydd. Er bod yr union ddyletswyddau'n amrywio rhwng gwasanaethau,[3] bydd angen i'r rhan fwyaf o ddarparwyr gwasanaeth wneud y canlynol:

- Cynnal asesiadau risg, i asesu'r risg o niwed i bob defnyddiwr o gynnwys anghyfreithlon ac (os yw gwasanaeth yn debygol o gael ei ddefnyddio gan blant[4]), i blant, o gynnwys sy'n niweidiol iddynt;
- Cymryd camau effeithiol i reoli a lliniaru'r risgiau a nodwyd yn yr asesiadau hyn;
- Bod yn glir yn eu telerau gwasanaeth ynghylch sut bydd defnyddwyr yn cael eu hamddiffyn;
- Darparu ffyrdd hawdd i ddefnyddwyr roi gwybod am gynnwys anghyfreithlon a chynnwys sy'n niweidiol i blant; ac iddynt gwyno, gan gynnwys pan fyddant yn credu bod eu postiadau neu eu cyfrif wedi cael eu rhwystro neu eu dileu ar gam;
- Ystyried pwysigrwydd diogelu mynegiant rhydd a phreifatrwydd, wrth gyflawni eu dyletswyddau newydd.

Rhaid i ddarparwyr gwasanaethau ar-lein sy'n cyhoeddi neu'n dangos pornograffi gymryd camau i sicrhau nad yw plant yn gallu cael gafael ar y cynnwys hwn fel rheol.

## Cwmnïau sy'n gyfrifol am benderfynu pa fesurau diogelwch sydd eu hangen arnyn nhw wrth ystyried y risgiau maen nhw'n eu hwynebu

Mae ein dadansoddiad cychwynnol yn awgrymu y gallai mwy na 100,000 o wasanaethau ar-lein fod yn ddarostyngedig i'r rheolau newydd. Bydd angen i sefydliadau sy'n amrywio o gwmnïau mawr iawn sydd â digon o adnoddau i fusnesau bach a micro, mewn amrywiaeth eang o sectorau, asesu pa fesurau diogelwch sydd eu hangen arnyn nhw i gydymffurfio â'r rheolau newydd, ar sail y risgiau maen nhw'n eu hwynebu. Mae'r holl wasanaethau sydd â nifer sylweddol o ddefnyddwyr yn y DU, neu sy'n targedu marchnad y DU, o fewn cwmpas, ni waeth ble maen nhw wedi'u lleoli.[5]

Mae'r Ddeddf yn cydnabod bod gwasanaethau sydd o fewn cwmpas yn wahanol iawn, o ran eu maint, eu hadnoddau a'r risgiau maen nhw'n eu peri i bobl yn y DU. Bydd gwahanol fesurau diogelwch yn briodol ar gyfer gwahanol fathau o wasanaethau, a bydd ein hargymhellion yn

[3] Gweler yr Ymgynghoriad ar Niwed Anghyfreithlon (Tachwedd 2023) am drafodaeth fanwl am y gofynion cydymffurfio sy'n ymwneud â'r dyletswyddau Niwed Anghyfreithlon yn y Ddeddf.
[4] Hynny yw, rhai dan 18 oed.
[5] Mae'r meini prawf hyn wedi'u nodi yn y Ddeddf. Bydd yr Ymgynghoriad Niwed Anghyfreithlon (Tachwedd 2023) yn darparu gwybodaeth bellach am y cwmpas.

amrywio ar gyfer gwasanaethau yn dibynnu ar eu maint a maint y risg. Mae'r Ddeddf yn glir: yn bennaf oll, mae'r cyfrifoldeb yn nwylo'r darparwyr gwasanaeth eu hunain, i asesu'n briodol y risgiau y gallai eu defnyddwyr ddod ar eu traws, a phenderfynu pa gamau penodol y mae angen iddynt eu cymryd, yn gymesur â maint y risg, a'r adnoddau a'r gallu sydd ar gael iddynt.

Fel y gwelwyd yn ddiweddar wrth i ddeallusrwydd artiffisial gael ei gyflwyno'n gyflym, mae'r sectorau y mae'r Ddeddf yn gofyn i Ofcom eu rheoleiddio yn rhai deinamig a chyflym, sy'n golygu y bydd y cwestiynau y bydd angen i ni eu hateb fel rheoleiddiwr yn esblygu'n gyson. Bydd angen i ni daro cydbwysedd priodol, gan ymyrryd i ddiogelu defnyddwyr rhag niwed lle bo angen, tra'n sicrhau bod rheoleiddio'n diogelu preifatrwydd a rhyddid mynegiant yn briodol, ac yn hyrwyddo arloesedd. Byddwn yn canolbwyntio ar y gwasanaethau a'r nodweddion sy'n peri'r risg fwyaf o niwed i ddefnyddwyr yn y DU.

# Sut byddwn yn cyflawni nodau'r Ddeddf ac yn cefnogi gwasanaethau i gydymffurfio

## Rydym yn disgwyl i'r diwydiant weithio gyda ni, ac mae gennym bwerau i orfodi cydymffurfiaeth lle bo angen

Byddwn yn defnyddio ein pwerau a'n dyletswyddau o dan y Ddeddf i amddiffyn oedolion a phlant yn y DU, drwy sicrhau bod gwasanaethau'n cymryd camau addas i gadw pobl yn ddiogel.

Nid ein rôl ni yw dweud wrth gwmnïau am dynnu darnau penodol o gynnwys neu ddileu cyfrifon penodol, nac ymchwilio i gwynion unigol. [6] Ein rôl yw taclo'n sylfaenol yr hyn sy'n achosi cynnwys ar-lein anghyfreithlon a niweidiol i blant, drwy wella'r systemau a'r prosesau y mae cwmnïau'n eu defnyddio i fynd i'r afael â hyn. Bydd ceisio gwelliannau systemig yn lleihau'r risg ar raddfa fawr, yn hytrach na chanolbwyntio ar achosion fesul un.

Mae'r Ddeddf yn rhoi sawl ffordd i ni o ysgogi gwelliannau mewn diogelwch ar-lein.

**Yn gyntaf, byddwn yn darparu adnoddau i helpu cwmnïau i reoli risg**. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Dadansoddi achosion ac effeithiau niwed ar-lein, i gefnogi gwasanaethau wrth gynnal eu hasesiadau risg; [7]
- Arweiniad ar broses a argymhellir ar gyfer asesu risg;
- Codau ymarfer, sy'n nodi'r hyn y gall gwasanaethau ei wneud i liniaru'r risg o niwed

Bydd ein Cod Ymarfer cychwynnol ar Niwed Anghyfreithlon yn argymell bod gwasanaethau'n mabwysiadu mesurau amddiffyn i ymdrin â phob math o gynnwys anghyfreithlon sy'n dod o dan y Ddeddf. [8] Ar ben hynny, bydd y Codau drafft yn argymell mesurau wedi'u targedu yn erbyn rhai o'r mathau o niwed anghyfreithlon mwyaf difrifol. Mae'r mesurau amddiffyn hyn yn cynnwys mesurau clir, manwl, cymesur a thechnegol ymarferol y dylai gwasanaethau ystyried eu cymryd, mewn meysydd megis cymedroli cynnwys, dulliau adrodd a chwynion defnyddwyr, nodweddion dylunio gwasanaethau, llywodraethu a thelerau gwasanaeth.

Ni fydd yn rhaid i wasanaethau ddilyn yr argymhellion yn ein Codau, ond os byddant yn gwneud hynny, ystyrir eu bod wedi cydymffurfio â'r dyletswyddau cyfreithiol perthnasol. Os byddant yn

[6] Fodd bynnag, byddwn yn defnyddio cwynion i'n helpu i asesu a yw gwasanaethau wedi'u rheoleiddio yn amddiffyn eu defnyddwyr yn briodol.
[7] Disgrifir hyn yn y Ddeddf fel 'cofrestr risgiau' Ofcom.
[8] Gweler yr Ymgynghoriad ar Niwed Anghyfreithlon (Tachwedd 2023).

dewis defnyddio mesurau eraill, bydd angen iddyn nhw allu egluro sut mae'r dull maen nhw wedi'i ddewis yn cyflawni'r dyletswyddau yn y Ddeddf.

**Yn ail, byddwn yn sbarduno gwelliannau yn y diwydiant drwy ymgysylltu â'r gwasanaethau mwyaf a'r rhai sydd â'r risg fwyaf drwy oruchwyliaeth reoleiddio barhaus.** Mae 'goruchwylio' yn ddull ymgysylltu sydd wedi bod yn llwyddiannus mewn sawl maes rheoleiddio, yn enwedig o ran rheoleiddio gwasanaethau ariannol.[9] Yn benodol, mae'n golygu ymgysylltu'n rheolaidd â'r gwasanaethau sy'n cael yr effaith fwyaf ar ddefnyddwyr rhyngrwyd yn y DU, gan ganiatáu i'r rheoleiddiwr wneud y canlynol:

- Deall natur y niwed ar y gwasanaethau hynny, y mesurau lliniaru sydd eisoes ar waith i fynd i'r afael â hyn, a'r prosesau asesu risg a llywodraethu y mae'r gwasanaeth wedi'u mabwysiadu.
- Asesu effeithiolrwydd eu mesurau diogelwch, gan ystyried amgylchiadau penodol y gwasanaeth unigol (gan gynnwys ei lefelau risg, ei faint a'i gapasiti).
- Lle y bo'n briodol, gweithio gyda'r gwasanaeth i sicrhau gwelliannau yn y mesurau hynny.

Mae ein gwaith o reoleiddio llwyfannau rhannu fideos (VSPs) wedi nodi bod gan hyd yn oed y gwasanaethau mwyaf le i wella, er enghraifft yng nghynnwys eu polisïau i ddefnyddwyr a'r ffyrdd maen nhw'n eu cyfathrebu.[10] Rydym yn disgwyl y bydd arloesedd yn galluogi rhagor o welliannau mewn diogelwch ar-lein dros amser, gan gynnwys datblygu technolegau newydd i liniaru niwed. Er enghraifft, nod ein hymwneud â'r Hyb AI a Digidol sy'n cael ei lansio gan y Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol (DRCF) yw darparu cymorth i arloeswyr sy'n gweithio ar ryng-gysylltiadau diogelwch ar-lein a meysydd eraill fel preifatrwydd.[11]

Byddwn hefyd yn darparu gwybodaeth a chymorth i fusnesau newydd a gwasanaethau llai. Rydym wrthi'n datblygu cynlluniau ar gyfer offer digidol i helpu busnesau bach a chanolig – sef y rhan fwyaf o'r gwasanaethau o fewn cwmpas – i gydymffurfio â'r drefn, gan gynnwys cymorth i gwmnïau wrth benderfynu a yw'r rheolau'n berthnasol i'w gwasanaeth, ymateb i geisiadau am wybodaeth, a deall prosesau gorfodi.

**Yn drydydd, byddwn yn sicrhau cydymffurfiaeth drwy ddefnyddio ein pwerau ymchwilio a gorfodi pan mai dyma'r ffordd fwyaf effeithiol o ddiogelu'r cyhoedd.** Er ein bod yn ffafrio gweithio gyda gwasanaethau i'w hannog i gydymffurfio'n wirfoddol, os bydd angen byddwn yn lansio camau gorfodi pan fyddwn yn penderfynu nad yw cwmni'n cydymffurfio â'i ddyletswyddau, er enghraifft pan fyddwn o'r farn nad yw'n cymryd camau priodol i amddiffyn defnyddwyr rhag niwed. I ategu ein hymchwiliadau, mae gennym bwerau i ofyn am wybodaeth ac i gael adroddiadau gan unigolion medrus.

Lle byddwn ni'n gweld achosion o beidio â chydymffurfio, gallwn osod dirwyon o hyd at £18m neu 10% o'r refeniw byd-eang sy'n cymhwyso (p'un bynnag sydd fwyaf). Yn yr achosion mwyaf difrifol o beidio â chydymffurfio, gallwn ofyn am orchymyn llys sy'n gosod mesurau tarfu ar fusnes, a all fynnu bod trydydd partïon (fel darparwyr gwasanaethau talu neu wasanaethau hysbysebu, neu ddarparwyr gwasanaethau rhyngrwyd) yn tynnu eu gwasanaethau, neu'n cyfyngu ar fynediad i'w gwasanaethau yn y DU. Ar ben hynny, gall darparwyr gwasanaeth gyflawni trosedd os ydynt yn methu â chydymffurfio â hysbysiad gwybodaeth neu os ydynt yn methu, heb esgus rhesymol, â

---

[9] FCA, Ebrill 2019. Dull Goruchwylio yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol [cyrchwyd 18 Hydref 2023].
[10] Ofcom, Hydref 2022. Blwyddyn Gyntaf Ofcom o Reoleiddio Llwyfannau Rhannu Fideos [cyrchwyd 18 Hydref 2023].
[11] Llywodraeth y DU, Medi 2023. Gwasanaethau Cynghori Llywodraeth y DU i Helpu Busnesau i Lansio AI [cyrchwyd 18 Hydref 2023].

chymryd camau cydymffurfio a nodir mewn penderfyniad Ofcom bod y gwasanaeth yn torri dyletswyddau penodol sy'n ymwneud â chamfanteisio'n rhywiol ar blant a cham-drin plant a diogelwch plant. Mewn achosion o'r fath, gall cyfarwyddwyr ac uwch reolwyr eraill y darparwr hefyd fod yn atebol yn droseddol am y methiannau.

Er y byddwn yn defnyddio ein pwerau gorfodi mewn ffordd gymesur wedi'i thargedu, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, mae'r pwerau hyn yn hanfodol i sicrhau ein bod ni'n gallu cymryd camau effeithiol pan fo angen i amddiffyn defnyddwyr. Rydym yn egluro isod pryd rydym yn disgwyl i'r dyletswyddau perthnasol ddod i rym unwaith y bydd modd gorfodi ein harweiniad a'n codau terfynol.

**Yn olaf, byddwn yn dal gwasanaethau i gyfrif, drwy ddefnyddio tryloywder i daflu goleuni ar faterion diogelwch, rhannu arferion da, a thynnu sylw at feysydd lle gellir gwneud gwelliannau.** Mae'r Ddeddf yn rhoi pwerau eang i Ofcom i fynnu bod rhai gwasanaethau'n fwy tryloyw ynghylch eu mesurau ymddiriedaeth a diogelwch, gan gynnwys sut maen nhw'n gwerthuso effaith y mesurau hyn, a'u goblygiadau o ran hawliau a rhyddid defnyddwyr.

## Diogelu hawliau sylfaenol

Fel corff cyhoeddus, mae'n rhaid i Ofcom weithredu'n unol â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Byddwn yn sicrhau bod ein dulliau rheoleiddio yn cynnal pwysigrwydd hawliau sylfaenol, yn enwedig yr hawliau i ryddid mynegiant a phreifatrwydd. Rydym wedi asesu effaith bosibl ein cynigion, a byddwn yn parhau i wneud hynny, ac rydym yn cynnig ymyrryd mewn ffyrdd nad ydynt yn ymyrryd yn ormodol â hawliau.


## Rydym yn disgwyl newid

Mae ein hasesiad, a gyhoeddwyd fel rhan o'r ymgynghoriad ar Niwed Anghyfreithlon, yn dangos bod cynnwys ac ymddygiad anghyfreithlon a niweidiol ar-lein yn parhau i beri risg ddifrifol o niwed. Gall plant fod yn arbennig o agored i niwed. Er mai dim ond un agwedd ar ecosystem genedlaethol a byd-eang helaeth a chymhleth o ymdrechion diogelwch ar-lein yw rheoleiddio (gweler isod), mae ganddo rôl benodol i'w chwarae: mae'r pwerau unigryw a roddir i Ofcom yn unol â'r Ddeddf yn ein galluogi i ddwyn gwasanaethau ar-lein i gyfrif am ddiogelwch defnyddwyr yn y DU, ac rydym yn disgwyl newid.

Yn benodol, rydym yn rhagweld y bydd gweithredu'r Ddeddf yn sicrhau bod pobl yn y DU yn fwy diogel ar-lein drwy gyflawni pedwar canlyniad (Ffigur 1):

- **llywodraethu** diogelwch cryfach mewn cwmnïau ar-lein;
- gwasanaethau ar-lein **sydd wedi'u dylunio a'u gweithredu gyda diogelwch mewn golwg;**
- **dewis** i ddefnyddwyr er mwyn iddynt gael rheolaeth bwrpasol dros eu profiadau ar-lein; a
- thryloywder ynghylch y mesurau diogelwch y mae gwasanaethau'n eu defnyddio, a'r camau y mae Ofcom yn eu cymryd i'w gwella, er mwyn meithrin **ymddiriedaeth**.

**Ffigur 1: Prif Ganlyniadau**




## Canlyniad allweddol 1: Llywodraethu cryfach

Mewn ymateb i'n cynigion ynghylch asesu risg a llywodraethu,[12] rydym am weld cwmnïau'n gwella sut maent yn deall ac yn blaenoriaethu'r risg o niwed, ac yn adeiladu'r strwythurau, y diwylliant a'r prosesau sydd eu hangen i ymwreiddio diogelwch defnyddwyr mewn penderfyniadau strategol a phenderfyniadau bob dydd. Yn y gwasanaethau mwyaf, rydym yn disgwyl gweld diogelwch defnyddwyr yn cael ei gynrychioli ar bob lefel o'r sefydliad – o'r Bwrdd i dimau cynnyrch a pheirianneg.

## Canlyniad allweddol 2: Dylunio a gweithredu gwasanaethau gyda diogelwch mewn golwg

Rydym yn disgwyl i bob gwasanaeth gael mesurau diogelwch ac ymddiriedaeth priodol i daclo'r ystod lawn o niwed a restrir yn y Ddeddf. Yn benodol, rydym am weld gwelliannau mewn mesurau, a defnydd ehangach ohonynt, i fynd i'r afael â'r meysydd lle mae'r risg fwyaf i bobl, yn enwedig plant:

- cam-drin a chamfanteisio'n rhywiol ar blant, gan gynnwys meithrin perthynas amhriodol;
- terfysgaeth ar-lein;
- anogaeth i gasineb;
- twyll a sgamiau;
- mynediad dan oed at bornograffi; ac
- amddiffyn plant rhag cynnwys cyfreithlon a allai fod yn niweidiol iddynt, er enghraifft deunydd sy'n ymwneud ag anhwylderau bwyta, hunan-niweidio, a hunanladdiad.

Yn unol â'r Ddeddf, byddwn yn canolbwyntio'n benodol ar gynnwys a gweithgarwch sy'n cael effaith anghymesur o negyddol ar fenywod a merched, ac yn cynhyrchu canllawiau ar hyn.

[12] Gweler yr Ymgynghoriad ar Niwed Anghyfreithlon (Tachwedd 2023).

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae nifer o ddatblygiadau technolegol nodedig wedi cael eu datblygu a'u defnyddio i leihau'r risg o niwed. Mae llawer o wasanaethau'n defnyddio offer awtomataidd, neu ddosbarthwyr, i ganfod a chael gwared ar gynnwys anghyfreithlon a niweidiol, er bod hynny fel arfer yn cael ei oruchwylio'n barhaus gan bobl[13]. Fodd bynnag, nid yw offeryn o'r fath yn berffaith, ac mae'r dewis i'w ddefnyddio yn golygu cyfaddawd rhwng manteision dileu deunydd niweidiol, a'u cyfyngiadau, gan gynnwys y risg o dynnu deunydd cyfreithlon i lawr mewn camgymeriad, a'r goblygiadau o ran preifatrwydd.

Wrth ystyried y risgiau hyn, er bod gan offer awtomataidd rôl hanfodol i'w chwarae o ran lliniaru risgiau i ddiogelwch ar-lein, ein nod yw hyrwyddo'r defnydd o offer sy'n ddigon cywir, effeithiol a diduedd i gyflawni eu swyddogaeth fwriadedig, heb gael effeithiau anghymesur ar ryddid mynegiant a phreifatrwydd. Rydym am i gwmnïau asesu eu hoffer cymedroli cynnwys awtomataidd mewn perthynas â'r profion hyn, a byddwn yn ystyried sut maen nhw'n gallu bod yn fwy tryloyw ynghylch sut maen nhw'n defnyddio'r offer hyn, a'u heffeithiolrwydd.

## Canlyniad allweddol 3: Dewis i ddefnyddwyr

Mae'r Ddeddf hefyd yn disgwyl i wasanaethau alluogi defnyddwyr i gael mwy o ddewis a rheolaeth wrth lywio eu profiad ar-lein.[14] Yma, byddwn yn ceisio sicrhau bod gwasanaethau'n rhoi'r adnoddau i ddefnyddwyr ddeall eu dewisiadau ar-lein yn well ac yn rhoi'r gallu iddyn nhw addasu'r cynnwys maen nhw'n ei weld a gyda phwy maen nhw'n rhyngweithio ar-lein. Bydd galluogi defnyddwyr y DU i gael mwy o reolaeth a dewis ar-lein yn cyfrannu hefyd at ddiogelu hawl defnyddwyr i ryddid mynegiant ar-lein. Wrth ddatblygu ein polisi yn y maes hwn, byddwn yn defnyddio canfyddiadau o gorff sylweddol Ofcom o ymchwil i fewnwelediad ymddygiadol a'n rhaglen Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau (MSOM), sy'n helpu i wella dealltwriaeth, gwybodaeth a sgiliau ar-lein plant ac oedolion yn y Deyrnas Unedig.[15]

## Canlyniad allweddol 4: Tryloywder i sbarduno ymddiriedaeth

Ein canlyniad olaf yw hyrwyddo tryloywder, i sicrhau bod y fframwaith rheoleiddio hwn yn ddibynadwy a bod yr holl randdeiliaid yn ymddiried ynddo. Mae tri dimensiwn i hyn.

Yn gyntaf, tryloywder ynghylch mesurau diogelwch gwasanaethau. Rydym yn gwybod bod llawer o randdeiliaid, a defnyddwyr, yn teimlo bod gwasanaethau ar-lein yn aneglur ac nad yw eu mesurau diogelwch, na'u prosesau gwneud penderfyniadau, yn glir. Er bod llawer o gwmnïau wedi lansio adroddiadau tryloywder yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gallai'r rhain fynd ymhellach drwy daflu goleuni ar y camau maen nhw'n eu cymryd i ddiogelu defnyddwyr. Mae ein hadroddiad ar Lwyfannau Rhannu Fideos yn un o'r asesiadau cynhwysfawr cyntaf gan reoleiddiwr o fesurau ymddiriedaeth a diogelwch llwyfannau.[16] At hynny, roedd ein hadroddiad ar ffrydio byw y saethu ofnadwy yn Buffalo, Efrog Newydd ym mis Mai 2022 yn cynnig dadansoddiad annibynnol o sut daeth y deunydd hwn i'r amlwg ar draws y Rhyngrwyd, gan nodi'r gwersi a ddysgwyd ers ffrydio byw tebyg

---

[13] Ofcom, Ionawr 2023. Systemau Dosbarthu Cynnwys Awtomataidd [cyrchwyd 18 Hydref 2023].

[14] Mae dyletswyddau ar Ofcom o dan adran 11 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 i hyrwyddo a chynnal ymchwil i ymwybyddiaeth o'r cyfryngau. Mae'r dyletswyddau hyn wedi'u diwygio gan y Ddeddf Diogelwch Ar-lein i roi cyfrifoldebau newydd i Ofcom i gynyddu ymwybyddiaeth o'r cyfryngau ar y cyd â'r defnydd o wasanaethau wedi'u rheoleiddio.

[15] Gweler Rhaglen Ymwybyddiaeth o'r Cyfryngau Ofcom [cyrchwyd 18 Hydref 2023].

[16] Ofcom, Hydref 2022. Blwyddyn Gyntaf Ofcom o Reoleiddio Llwyfannau Rhannu Fideos [cyrchwyd 18 Hydref 2023].

yr erchylltra yn Christchurch yn 2019, ac argymell ffyrdd o gydweithio i reoli'r diwydiant er mwyn rheoli'r risgiau ymhellach.[17]

Yn ail, tryloywder Ofcom ei hun. Mae ymchwil annibynnol wedi canfod, pan fydd pwrpas rheoleiddio'n gyffredin i gwmnïau wedi'u rheoleiddio a rhanddeiliaid eraill a'u bod yn ei ystyried yn deg ac yn effeithiol, maen nhw'n fwy tebygol o'i gefnogi a'i roi ar waith a chyfrannu at gyflawni ei nodau.[18] Mae Ofcom yn atebol i Senedd y DU ac i'r cyhoedd, ac rydym bob amser wedi ymrwymo i fod yn gwbl dryloyw yn ein gwaith fel rheoleiddiwr. Byddwn yn ceisio meithrin hyder y cyhoedd yng ngallu'r broses reoleiddio i ddarparu bywyd mwy diogel ar-lein drwy fod yn glir ynghylch sut mae newidiadau'n cael eu rhoi ar waith ar draws y gwasanaethau sydd o fewn cwmpas. Byddwn yn dilyn effaith y broses reoleiddio a manteision hyn i ddefnyddwyr.

Yn drydydd, ymgysylltu agored â grwpiau cymdeithas sifil, academyddion, cyrff arbenigol, asiantaethau gorfodi'r gyfraith a llunwyr polisi rhyngwladol, i ddeall eu safbwyntiau, i sicrhau bod ein polisi rheoleiddio yn cael ei lywio gan eu harbenigedd, ac i gyflawni nodau cyffredin. Byddwn hefyd yn sicrhau bod gennym amrywiaeth o ffyrdd o glywed lleisiau defnyddwyr eu hunain, yn enwedig plant.

## Mae'r Ddeddf yn rhan o ddatblygiad cenedlaethol a rhyngwladol ehangach i reoleiddio diogelwch ar-lein

Rydym yn cydnabod ei bod yn hollbwysig sicrhau cysondeb rhwng y drefn Diogelwch Ar-lein newydd a fframweithiau rheoleiddio eraill y DU, ac rydym wedi bod yn gweithio'n arbennig o agos gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO), yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA) a'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA) gyda chefnogaeth y Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol (DCRF), a sefydlwyd yn 2020. Wrth daclo diogelwch ar-lein, rydym yn cydnabod ei bod yn hanfodol bod defnyddwyr gwasanaethau ar-lein yn hyderus y bydd eu preifatrwydd yn cael ei gynnal hefyd, a bod darparwyr gwasanaethau'n cydymffurfio â'u rhwymedigaethau ac yn gallu parhau i arloesi a thyfu, gydag eglurder rheoleiddiol yn gymorth i wneud hyn. Fe wnaethom gyhoeddi datganiad am hyn ar y cyd â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn 2022 ac ers hynny, rydym wedi gweithio'n agos gyda nhw ar faterion fel sicrwydd oedran a chymedroli cynnwys. Rydym yn ymgynghori'n helaeth â nhw wrth ddatblygu ein Codau a'n canllawiau i sicrhau ein bod yn rhoi ystyriaeth lawn i ofynion diogelu data ac effaith ein cynigion ar breifatrwydd defnyddwyr. Fe wnaethom hefyd gyhoeddi datganiad ar y cyd â'r CMA yn 2022 a oedd yn nodi ein barn gyffredin am ryngweithio rhwng diogelwch a chystadleuaeth mewn marchnadoedd digidol. Rydym yn awyddus i fanteisio ar gyfleoedd i symleiddio gofynion ar draws y fframweithiau rheoleiddio hyn yn y DU er mwyn dod o hyd i synergeddau a lleihau'r baich ar wasanaethau o ran cydymffurfio â rheoleiddio.

Er mai ein cyfrifoldeb ni fydd sicrhau bod gwasanaethau sydd o fewn cwmpas yn bodloni gofynion cyfreithiol y Deyrnas Unedig, rydym hefyd wedi meithrin cysylltiadau cadarn gyda'n cymheiriaid cyfatebol mewn awdurdodaethau eraill, a byddwn yn ceisio cysoni ein polisi â dulliau rhyngwladol lle y bo hynny'n briodol. Fel cyd-sefydlwyr y Rhwydwaith Rheoleiddwyr Diogelwch Ar-lein Byd-eang newydd, y bydd Ofcom yn ei gadeirio yn 2024, rydym yn cydweithio â rheoleiddwyr rhyngwladol gyda'r nod o sicrhau bod y dulliau gweithredu ar gyfer diogelwch ar-lein rhwng gwledydd mor gyson a chydlynol â phosibl.

---

[17] Ofcom, Hydref 2022. Ymosodiad Buffalo: Y goblygiadau ar gyfer diogelwch ar-lein [cyrchwyd 18 Hydref 2023].

[18] 2017, Hodges, *Outcome-Based Cooperation: In Communities, Business, Regulation, and Dispute Resolution.*

Mae'r fframwaith rheoleiddio newydd yn y DU yn un o nifer o ddatblygiadau byd-eang ym maes rheoleiddio diogelwch ar-lein, gan gynnwys Deddf Gwasanaethau Digidol (DSA) yr UE a Deddf Diogelwch Ar-lein Awstralia.  Wrth weithio ar lefel ryngwladol, ein nod yw helpu i ddatblygu pecyn cymorth rheoleiddio cyffredin o normau a safonau sy'n seiliedig ar arferion gorau rhyngwladol. Yn y pen draw, bydd hyn yn helpu i leihau costau cydymffurfio ar gyfer gwasanaethau o fewn y cwmpas wrth i ni wella mesurau diogelu ar gyfer defnyddwyr rhyngrwyd y DU.

# Map wedi'i ddiweddaru

## Mae proses Senedd y DU wedi esblygu, ac felly hefyd ein hamserlen

Ym mis Gorffennaf 2022, fe wnaethom gyhoeddi ein map ar gyfer rheoleiddio, gan nodi ein dull cyffredinol fel rheoleiddiwr diogelwch ar-lein.[19] Ym mis Mehefin 2023, fe wnaethom gyhoeddi diweddariad i'n hamserlenni ar gyfer rhoi'r Ddeddf ar waith.[20] Gan fod y Ddeddf wedi ei phasio erbyn hyn, rydym wedi diwygio ein map unwaith eto.

Fel oedd yn wir gynt, bydd y rheolau newydd yn cael eu cyflwyno mewn tri cham, gyda'r amseru'n seiliedig ar ofynion y Ddeddf ac is-ddeddfwriaeth berthnasol. Mae'r cynllun gweithredu'n adlewyrchu'r dull fesul cam hwn o weithredu. Byddwn yn gweithredu mor gyflym â phosibl ond yn sicrhau hefyd ein bod yn profi ein gwaith drwy ymgynghori teg a thryloyw.


Mae'r dyddiadau hyn yn adlewyrchu ein cynlluniau gweithredu presennol.  Wrth i ni barhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid ac wrth i Lywodraeth y DU roi'r is-ddeddfwriaeth angenrheidiol ar waith, rydym yn rhagweld y bydd rhai amserlenni'n newid. Bydd Etholiad Cyffredinol ar ryw bwynt cyn diwedd 2024. Oherwydd ansicrwydd ynghylch union amseru'r etholiad, nid ydym wedi cynnwys hynny yn ein gwaith cynllunio manwl, ond gallai'r amserlen newid unwaith i ddyddiad yr etholiad gael ei gadarnhau, o ystyried yr angen am is-ddeddfwriaeth i sefydlu rhai agweddau ar y rheolau newydd, a rolau'r Ysgrifennydd Gwladol dros Wyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg, a Senedd y DU, o ran cymeradwyo'r Codau Ymarfer.

**Ffigur 2: Our timeline for online safety implementation**[21]

[19] Ofcom, Mehefin 2022. Map Diogelwch Ar-lein Ofcom [cyrchwyd 18 Hydref 2023].

[20] Gweler Diweddariad i Fap Diogelwch Ar-lein Ofcom [cyrchwyd 18 Hydref 2023].

[21] Mae'r llinell amser hon yn dangos ein cerrig milltir a dogfennaeth allweddol ond nid yw'r ganllaw cynhwysfawr i bopeth y byddwn yn ei gyhoeddi yn ystod tair blynedd cyntaf y drefn.




## Cam un: Cynnwys anghyfreithlon

Mae'r cam cyntaf hwn yn canolbwyntio ar Godau a chanllawiau sy'n ymwneud â dyletswyddau cynnwys anghyfreithlon. Bydd hyn yn mynd i'r afael â'r peryglon mwyaf ar-lein fel terfysgaeth a thwyll, ac mae'n cynnwys mesurau i amddiffyn plant rhag cam-drin a chamfanteisio'n rhywiol ar blant.

Ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben, byddwn yn ystyried ymatebion rhanddeiliaid ac yn penderfynu ar ein safbwynt terfynol mewn perthynas â'r materion polisi a godwyd yn yr ymgynghoriad. Byddwn wedyn yn cyhoeddi datganiad yn nodi ein penderfyniadau, ynghyd â fersiynau terfynol o'r Canllawiau Asesu Risg Gwasanaethau, y Codau Ymarfer, a'r canllawiau cysylltiedig.

Ein rhagdybiaeth o ran cynllunio ar hyn o bryd, ar sail profiad blaenorol o gyhoeddiadau rheoleiddio mawr, yw y gallwn gyhoeddi'r datganiad tua blwyddyn ar ôl cyhoeddi'r ymgynghoriad – hynny yw, yn yr hydref o 2024. Mae'r Ddeddf Diogelwch Ar-lein yn ei gwneud yn ofynnol i Ofcom gyflwyno ein Codau Ymarfer ar niwed anghyfreithlon i'r Ysgrifennydd Gwladol a chyhoeddi canllawiau cysylltiedig cyn pen 18 mis ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol.[22]

Ar ôl i ni gyhoeddi ein datganiad, bydd gan wasanaethau dri mis i gwblhau eu hasesiadau risg ynghylch cynnwys anghyfreithlon. Ar y pwynt hwnnw, byddwn hefyd yn cyflwyno'r Codau Ymarfer i'r Ysgrifennydd Gwladol er mwyn eu cyflwyno gerbron y Senedd, os cânt eu cymeradwyo, am 40 diwrnod. Ar ôl i'r Senedd eu cymeradwyo, daw'r Codau i rym 21 diwrnod ar ôl iddyn nhw gael eu cyhoeddi.

---

[22] Mae'n bosib y ceir estyniad o hyd at 12 mis lle y bo hynny'n angenrheidiol, ar ôl cyhoeddi datganiad o'n rhesymau pam fod angen estyniad o'r fath.

Ar y pwynt hwn, bydd modd gorfodi'r dyletswyddau diogelwch ar gyfer niwed anghyfreithlon, a gallwn ddechrau ymchwiliadau ac – ar ôl i'r rheini ddod i ben – gosod sancsiynau os byddwn yn canfod nad yw gwasanaethau'n cydymffurfio â'r dyletswyddau hyn. Rydym yn disgwyl y bydd modd dechrau gorfodi'r dyletswyddau tua diwedd 2024, gan gymryd bod Senedd y DU yn cymeradwyo'r Codau.

Rydym hefyd yn bwriadu ymgynghori yn 2024 ar elfennau o'r fframwaith a fydd yn sail i'n pwerau i'w gwneud hi'n ofynnol i wasanaethau ddefnyddio neu ddatblygu technoleg achrededig i ymdrin â chynnwys cam-drin a chamfanteisio'n rhywiol ar blant/cynnwys terfysgaeth. Mae'r rhain yn cynnwys cyngor Ofcom i'r Ysgrifennydd Gwladol ar safonau cywirdeb sylfaenol ar gyfer technolegau achrededig a chanllawiau ar sut byddwn yn defnyddio'r pwerau hyn.

## Cam dau: Diogelwch plant, pornograffi, ac amddiffyn menywod a merched

Mae ail gam ein gwaith yn canolbwyntio ar amddiffyn plant rhag cynnwys cyfreithlon a allai fod yn niweidiol iddynt, gan gynnwys pornograffig, cynnwys yn ymwneud â hunanladdiad, hunan-niwed ac anhwylderau bwyta, cynnwys sy'n ymosodol ac wedi'i anelu at, neu'n annog casineb yn erbyn pobl ar sail nodweddion gwarchodedig; bwlio, a chynnwys sy'n portreadu trais difrifol.

Mae sawl rhan i'r cam hwn.

Yn gyntaf, bydd yn rhaid i **wasanaethau ar-lein sy'n lletya cynnwys pornograffig** ddefnyddio dull sicrhau oedran i atal plant rhag cael gafael ar gynnwys pornograffig fel arfer. Byddwn yn ymgynghori ar ganllawiau drafft ar sut gallant wneud hyn ym mis Rhagfyr 2023.

Yn ail, bydd yn rhaid i **wasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr a gwasanaethau chwilio** fynd drwy broses o'r enw Asesiad Mynediad Plant, a fydd yn dweud wrthynt a ydynt yn debygol o gael eu cyrchu gan blant. Os ydynt yn debygol o gael eu cyrchu gan blant, bydd yn rhaid iddynt gydymffurfio â'r dyletswyddau diogelwch plant yn y Ddeddf. Mae'r rhain yn cynnwys asesu'r risgiau mae eu gwasanaethau'n eu peri i blant a chymryd camau i liniaru'r risgiau hynny.

Byddwn yn cyhoeddi ein cynigion ar gyfer y rhannau hyn o'r fframwaith rheoleiddio at ddibenion ymgynghori yn ystod y gwanwyn 2024. Bydd hyn yn cynnwys:

- Canllawiau drafft i wasanaethau ar gynnal eu Hasesiadau Mynediad Plant
- Dadansoddiad Ofcom o achosion ac effeithiau niwed i blant
- Canllawiau drafft ar gynnal Asesiadau Risg Plant
- Codau Ymarfer drafft sy'n nodi'r mesurau a argymhellir i amddiffyn plant ar-lein.

Caiff gwasanaethau dri mis i gynnal Asesiadau Mynediad Plant ar ôl i ni gyhoeddi ein canllawiau terfynol. Os ydych yn dod i'r casgliad eu bod yn debygol o gael eu cyrchu gan blant, yna bydd yn rhaid iddynt gynnal Asesiadau Risg Plant. Rydym yn bwriadu cyhoeddi ein canllawiau terfynol ar Asesiadau Mynediad Plant yn gynnar yn 2025. Bydd ein prif ddatganiad ar y dyletswyddau diogelwch plant yn dilyn yn ystod Gwanwyn 2025. Bydd hyn yn caniatáu i wasanaethau gwblhau eu Hasesiadau Mynediad Plant cychwynnol, a phenderfynu a oes angen iddynt gydymffurfio â'r dyletswyddau diogelwch plant, cyn i'r gofyniad i gynnal Asesiadau Risg Plant ddod i rym.

Ar y pwynt hwn (Gwanwyn 2025), bydd gan wasanaethau perthnasol dri mis i gynnal Asesiad Risg Plant. Ar yr un pryd, byddwn yn cyflwyno'r Codau Ymarfer Plant i'r Ysgrifennydd Gwladol.[23] Yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth yr Ysgrifennydd Gwladol, cânt eu cyflwyno gerbron Senedd y DU

[23] Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i ni wneud hyn o fewn 18 mis i'r adeg y daw'r Ddeddf yn gyfraith.

am 40 diwrnod. Ar ôl cymeradwyaeth gan Senedd y DU, daw'r codau i rym 21 diwrnod ar ôl iddynt gael eu cyhoeddi.

Ar y pwynt hwn, bydd modd gorfodi'r dyletswyddau diogelwch ar gyfer amddiffyn plant, a gallwn ddechrau ymchwiliadau a gosod sancsiynau am unrhyw ddiffyg cydymffurfio. Rydym yn disgwyl y bydd modd gorfodi'r dyletswyddau yn ystod Haf 2025, gan gymryd bod Senedd y DU yn cymeradwyo'r codau.

Erbyn y Gwanwyn 2025, byddwn hefyd yn cyhoeddi canllawiau drafft ar amddiffyn menywod a merched, a fydd yn cynnwys cyngor ar gynnwys a gweithgarwch sy'n effeithio'n anghymesur ar fenywod a merched, ac ar asesu a lleihau'r risg o niwed iddynt.

## Cam tri: Dyletswyddau ychwanegol ar gyfer gwasanaethau wedi'u categoreiddio

Bydd trydydd cam rheoleiddio diogelwch ar-lein yn canolbwyntio ar y dyletswyddau ychwanegol a fydd yn berthnasol i wasanaethau wedi'u categoreiddio, gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud ag adrodd ar dryloywder, grymuso defnyddwyr, hysbysebu twyllodrus, a hawliau defnyddwyr.

Byddwn yn cyhoeddi cyngor i'r Ysgrifennydd Gwladol ynghylch categoreiddio, ac yn drafftio canllawiau ar ein dull o adrodd ar dryloywder, erbyn Gwanwyn 2024. Bydd yr Ysgrifennydd Gwladol wedyn yn gosod trothwyon ar gyfer categoreiddio mewn is-ddeddfwriaeth. Gan gymryd bod hyn yn cael ei gyflawni erbyn haf 2024, rydym yn disgwyl cyhoeddi cofrestr o wasanaethau wedi'u categoreiddio erbyn diwedd 2024.

Yn amodol ar gyflawni'r amserlen hon, rydym yn bwriadu cyhoeddi rhagor o gynigion ynghylch dyletswyddau ar wasanaethau wedi'u categoreiddio, gan gynnwys Cod Ymarfer drafft ar hysbysebu twyllodrus, ddechrau 2025, a hysbysiadau tryloywder ganol 2025, gan ddibynnu ar amseriad yr is-ddeddfwriaeth. Yn yr un modd â'r meysydd eraill, byddwn yn ymgynghori'n ofalus ac yn llawn, ac rydym yn disgwyl i'n codau a'n canllawiau terfynol gael eu cyhoeddi tua diwedd 2025.

## Diddymu rheoleiddio llwyfannau rhannu fideos (VSP)

Ym mis Mai 2023, fe wnaethom gyhoeddi diweddariad ar ddiddymu'r drefn Llwyfannau Rhannu Fideos (VSP), a fydd yn cael ei disodli gan reoleiddio Diogelwch Ar-lein.[24] Mewn is-ddeddfwriaeth, bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn pennu dyddiad ar gyfer diddymu'r drefn Llwyfannau Rhannu Fideos. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol roi o leiaf chwe mis o rybudd i lwyfannau am y dyddiad diddymu. Bydd yr Ysgrifennydd Gwladol hefyd yn nodi mewn is-ddeddfwriaeth yr amseru ynghylch pryd bydd angen i ddarparwyr Llwyfannau Rhannu Fideos gynnal asesiadau risg a'r asesiad mynediad plant – cânt o leiaf 3 mis i wneud pob un o'r asesiadau hyn, fel y gwasanaethau eraill sydd wedi'u rheoleiddio. Bydd Ofcom yn cefnogi darparwyr Llwyfannau Rhannu fideos i symud i'r drefn diogelwch ar-lein; mae rhagor o wybodaeth am hyn ar gael yn ein diweddariad ar ddiddymu rheoliadau Llwyfannau Rhannu Fideos.[25]

## Ffioedd

Bydd y drefn diogelwch ar-lein yn cael ei hariannu gan ffioedd a delir gan ddarparwyr gwasanaethau wedi'u rheoleiddio y mae eu "refeniw byd-eang sy'n cymhwyso" (QWR) yn cyrraedd neu'n pasio trothwy penodol, ac nad ydynt wedi'u heithrio fel arall. Bydd yn rhaid i ddarparwyr sy'n atebol i dalu

---

[24] Ofcom, Mai 2023. Diddymu'r Drefn VSP: yr hyn y mae angen i chi ei wybod [Cyrchwyd 18 Hydref 2023].
[25] Ofcom, Mai 2023. Diddymu'r Drefn VSP: yr hyn y mae angen i chi ei wybod [Cyrchwyd 18 Hydref 2023].

ffioedd roi gwybod i Ofcom am eu refeniw byd-eang sy'n cymhwyso, a byddant yn cael eu hanfonebu yn unol â hynny. Bydd ffioedd yn cael eu cyfrifo, ymysg pethau eraill, gan gyfeirio at QWR y darparwr.

Bydd Ofcom ac Ysgrifennydd Gwladol yr Adran dros Wyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg yn gyfrifol am weithredu'r drefn ffioedd. Bydd Ofcom yn penderfynu ar refeniw byd-eang sy'n cymhwyso, unrhyw eithriadau rhag y rhwymedigaeth i dalu ffioedd, a sut dylid cyfrifo'r ffioedd. Bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn gosod y trothwy ar gyfer refeniw byd-eang sy'n cymhwyso, ar ôl derbyn cyngor gan Ofcom. Byddwn yn ymgynghori'n gyhoeddus ar y diffiniad o refeniw byd-eang sy'n cymhwyso, unrhyw eithriadau, a'n dull o gyfrifo ffioedd, yn ogystal â'r cyngor y byddwn yn ei roi i'r Ysgrifennydd Gwladol ar y trothwy ar gyfer refeniw byd-eang sy'n cymhwyso.

Bydd llawer o'r drefn gyllido'n cael ei gweithredu drwy is-ddeddfwriaeth a bydd Senedd y DU yn craffu ar y broses honno. Rydym yn gweithio gyda'r Adran dros Wyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg gyda'r nod o weithredu'r drefn gyllido erbyn blwyddyn ariannol 2026/27.